



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Accredilink Community Response Taskforce**

**7 Stryd Mwrog  
Rhuthun  
LL15 1LB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

09/04/2024

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Accredilink Community Response Taskforce

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Accredilink Community Response Taskforce CYF
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	27 Medi 2023
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol ac felly ni ystyriwyd pob thema yn llawn. Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt gan Accredilink Community Response Taskforce. Gwnaethant siarad yn gadarnhaol am y parhad gofal y maent yn ei gael gan y staff a gwnaethant ddweud bod y staff gofal ar amser bob tro, ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro.

Mae'r cynlluniau personol yn glir o ran pa gymorth sydd ei angen ar y bobl, ond nid yw darparwr y gwasanaeth yn cwblhau'r asesiadau cyn derbyn yn gyson cyn cytuno i roi gwasanaeth i bobl. Mae angen gwella hyn er mwyn sicrhau y gall gwasanaeth ddiwallu anghenion y bobl.

Mae'r staff gofal yn gweithio fel tîm ac yn frwdfrydig am eu rôl. Nid yw'r cofnodion yn dangos bod pob aelod o'r staff yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd, yn cael hyfforddiant digonol, nac yn cael asesiadau cymhwysedd. Mae darparwr y gwasanaeth yn gweithio tuag at roi'r rhaglen hyfforddi newydd ar waith i bob aelod o'r staff gofal.

Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed rhai gwelliannau i drefniadau llywodraethu cyffredinol y gwasanaeth. Caiff polisïau perthnasol eu hadolygu'n rheolaidd, caiff dogfennaeth gofal ei harchwilio er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol, ac mae adolygiadau o ansawdd y gofal wedi cael eu rhoi ar waith ers yr arolygiad diwethaf. Nid oes gwelliannau digonol wedi cael eu gwneud i'r prosesau recriwtio er mwyn sicrhau bod staff newydd yn addas i weithio gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu gofal a'u cymorth, ac mae'r adolygiadau gofal yn dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys yn rheolaidd yn y broses barhaus o ddatblygu'r gwasanaeth a gânt. Dywedodd y bobl fod y staff gofal yn eu trin ag urddas a pharch. Mae sylwadau gan y bobl yn cynnwys *“they do a superb job, my life would be grim without their visits”*. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn ddiolchgar am y cymorth y mae eu hanwyliaid yn ei gael. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn sicrhau parhad gofal gan fod yr un gweithwyr gofal yn ymweld â nhw bob wythnos ac ar yr un amseroedd. Mae'r bobl yn cael y gwasanaeth yn eu dewis iaith, ac mae staff gofal ar gael sy'n gallu sgwrsio yn Gymraeg. Mae rhai o'r dogfennau ar gael yn Gymraeg ac mae darparwr y gwasanaeth yn y broses o gyfieithu'r dogfennau sy'n weddill i'r Gymraeg.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Nid yw'r asesiadau cyn derbyn yn cael eu cwblhau'n gyson cyn rhoi gwasanaeth i'r bobl, ac mae angen gwella hyn. Mae'r cynlluniau personol yn glir o ran sut i roi cymorth i'r bobl, ond nid yw pob asesiad risg ar waith ac mae hwn yn faes i'w wella o hyd. Mae'r staff gofal yn cwblhau'r ddogfennaeth berthnasol i ddangos bod y bobl yn cael y cymorth cywir. Caiff y cyngor a geisir gan weithwyr proffesiynol ei gynnwys yn y cynlluniau personol a'r asesiadau risg. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol allanol y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff gofal yn dda iawn am ymgysylltu â'u gwasanaeth. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn adnabod y bobl yn dda, gan gynnwys eu hanghenion a'u dewisiadau.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel gyda'r staff gofal, a'u bod yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Dywedodd perthnasau wrthym nad oeddent wedi cael rheswm i gwyno, ond eu bod yn teimlo y gallent fynd at y staff pe bai ganddynt broblemau. Mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu diweddaraf, ac roedd y mwyafrif o'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau cywir ar gyfer codi pryder. Nid yw llawer o'r staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar chwythu'r chwiban, na hyfforddiant gorfodol arall, yn ogystal â hyfforddiant arbenigol i ddiwallu anghenion unigol y bobl. Mae'r arferion recriwtio yn parhau i fod yn annigonol o ran sicrhau bod staff newydd yn addas i weithio gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Mae'r bobl yn cael gwasanaeth sydd wedi'i gynllunio ar y cyd â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd ar y cyfan. Gwnaethom adolygu detholiad o ffeiliau gofal a gwelsom fod dymuniadau, dyheadau a nodau personol y bobl yn cael eu hystyried. Mae'r cynlluniau personol yn nodi'n glir y ffordd orau o roi cymorth i'r bobl, ac maent wedi'u hysgrifennu gan ddefnyddio iaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys dewisiadau'r bobl.

Gwnaethom siarad â staff gofal a oedd yn amlwg yn deall anghenion y bobl ac yn gyfarwydd â hoff bethau a chas bethau'r unigolion. Nid yw darparwr y gwasanaeth yn cwblhau asesiadau cyn derbyn yn gyson er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion yr unigolyn cyn cytuno i ddarparu'r gwasanaeth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella o hyd, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r ffeiliau y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys asesiadau risg priodol, ond mae angen gwneud gwelliannau o hyd er mwyn sicrhau bod y rhain ar waith ar gyfer pob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a byddwn yn ystyried hyn eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Dywedodd y bobl a/neu eu perthnasau wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r gofal a'r cymorth ac mae'r cofnodion yn dangos bod adolygiadau'n cael eu cwblhau'n rheolaidd. Roedd yr adborth gan berthnasau am y staff gofal yn cynnwys y canlynol: *"polite, professional, reliable and good with time keeping"* ac *"I wouldn't be able to do it without them"*. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion eu hanwyliaid, a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw fod staff gofal y gwasanaeth yn *"really helpful, they have always been professional, caring, communication skills are excellent"*.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod ganddynt ddigonedd o Gyfarpar Diogelu Personol, a chadarnhaodd y bobl fod y staff gofal yn defnyddio'r cyfarpar. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar reoli heintiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Mae rhai trefniadau llywodraethu ar waith gan ddarparwr y gwasanaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y ddogfennaeth gofal yn cael ei chynnal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn casglu barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r adborth a gesglir yn cael ei ddadansoddi a'i gynnwys yn yr adroddiad ar ansawdd y gofal. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn tynnu sylw at yr hyn sy'n dda am y gwasanaeth a lle mae angen gwneud gwelliannau.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r adborth gan y staff gofal yn cynnwys "*I just love it*" ac "*I would say communication is excellent, support is there to do with anything*". Dywedodd y mwyafrif o'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd gan uwch-aelod o'r staff. Mae'r cofnodion goruchwyllo'n dangos bod y staff gofal yn cael y cyfle i fyfyrio ar eu hymarfer ac yn cael adborth ar eu perfformiad, ond nid yw pob aelod o'r staff gofal yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd. Yn ystod ein harolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff yn cael yr hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom nad oedd y gwelliannau angenrheidiol wedi cael eu rhoi ar waith a'u hymgorffori'n llawn yn y gwasanaeth. Nid yw pob aelod o'r staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r cymwysterau gofynnol ar gyfer eu rôl. Mae'r staff gofal yn cael budd o asesiadau cymhwysedd rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus yn eu rôl, a gwelsom nad oedd y rhain yn gyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff gofal. Felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Dywedodd darparwr y gwasanaeth wrthym ei fod wedi rhoi rhaglen hyfforddiant ar waith a'i fod yn gweithio tuag at sicrhau bod pob gweithiwr gofal yn ei chwblhau.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd y cofnodion recriwtio ar gyfer aelodau newydd o'r staff gofal yn ddigonol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom nad oedd y gwelliannau angenrheidiol wedi cael eu gwneud. Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod pob aelod newydd o'r staff yn cael eu fetio'n gadarn cyn dechrau gweithio yn y gwasanaeth, ac mae hyn yn cynnwys cael geirdaon priodol a sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau. Cawsom sicrwydd gan yr Unigolyn Cyfrifol fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
35	Mae'r darparwr wedi methu â sicrhau y caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau'n llawn cyn i aelodau newydd o staff gael eu cyflogi i weithio yn y gwasanaeth. Dylid sicrhau bod proses gadarn ar waith i gasglu'r holl wybodaeth ofynnol, gan gynnwys geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cyn iddynt ddechrau eu swydd.	Heb Gyflawni
36	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cymorth a hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Dylid sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cyfnodau sefydlu, sesiynau goruchwyllo ac yn cwblhau'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt i	Heb Gyflawni

	gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol, ac fel eu bod yn gallu diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn briodol.	
--	--	--

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

<b>Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella</b>		
<b>Rheoliad</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>Statws</b>
14	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi dangos bod asesiadau cyn derbyn wedi cael eu cynnal cyn i'r bobl gael cynnig gwasanaeth. Dylid sicrhau bod tystiolaeth ddogfennol i ddangos bod asesiadau cyn derbyn wedi cael eu cwblhau a bod y gwasanaeth yn dangos ei allu i ddiwallu anghenion y bobl cyn i wasanaeth gael ei gynnig.	Adolygwyd
15	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod yr holl gynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl i alluogi'r staff i ddiwallu anghenion y bobl yn briodol. Dylid sicrhau bod yr holl gynlluniau personol ar gael i'r staff, yn gyfredol, yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ac yn cael eu hadolygu ar y cyd â'r bobl ac eraill sy'n ymwneud â'u gofal a'u cymorth.	Adolygwyd
80	Nid yw'r darparwr wedi cynnal adolygiad o ansawdd y gofal o fewn yr amserlen ofynnol. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff adolygiad ei gynnal bob chwe mis, a darparu adroddiad i'w archwilio.	Adolygwyd





## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 15/05/2024**